# ROBERTS, EVAN (1836-1918), gwerthwr a'r 'casglwr horolegol pennaf o bawb'

**Enw:** Evan Roberts
**Dyddiad geni:** 1836
**Dyddiad marw:** 1918
**Priod:** Jane Roberts
**Plentyn:** Jeanora Williamson (née Roberts)
**Plentyn:** Bruno Roberts
**Rhiant:** Jane Roberts
**Rhiant:** Hugh Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gwerthwr a'r 'casglwr horolegol pennaf o bawb'
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes
**Awdur:** William Linnard

Ganwyd Evan Roberts, ail fab Hugh a Jane Roberts, 18 Rhagfyr 1836 ar fferm fynydd ei dad, Foty Bach, Gwyddelwern, Merionnydd, lle y ceisiai'r teulu tlawd ennill bywoliaeth. Ni chafodd yr Evan ifanc fawr o addysg ffurfiol ond yr oedd yn fachgen cydnerth, a phan oedd yn laslanc aeth i weithio'n labrwr at ffermwyr lleol. Yr oedd un o'r rhain hefyd yn glanhau clociau a watsys ac enynnodd hyn ddiddordeb Evan. 'Â phen a phoced wag' (chwedl yntau'n ddiweddarach), gadawodd gartref i geisio ennill ei ffortiwn ac ymsefydlodd yn atgyweiriwr watsys.

Yn 1861 sefydlodd ei fusnes ei hun ym Manceinion a thrwy fyw'n gynnil a gweithio'n galed, llwyddodd ei fusnes. Yr oedd yn ddigon craff i ganfod manteision y watsys Waltham a oedd yn cael eu masgynhyrchu a'u mewnforio o America, ac achubodd ar y cyfle masnachol gan ddod yn werthwr tra llwyddiannus yn teithio trwy Brydain ac Awstralia, yn gwerthu watsys Waltham a hefyd yn datblygu ei awydd i gasglu hen wastsys. Tyfodd ei gasgliad yn filoedd o eitemau, gan gynnwys watsys o ddiddordeb hanesyddol a horolegol mawr iawn. Cafodd rhan o'i gasgliad enwog ei harddangos yn Ffair y Byd yn Chicago yn 1893 ac ar ôl hynny mewn arddangosfeydd a chanolfannau yn rhyngwadol ac yn Llundain; cyhoeddwyd amryw o gatalogau (H. G. Abbott, *Catalogue of the historic and antique watches from the famous collection of Mr Evan Roberts...*, Chicago, 1893, H. G. Abbott, *The Roberts collection of antique watches...*, Chicago, 1897. [Evan Roberts], *Historic horology, being a catalogue...*, London, 1912).

Erbyn hyn yr oedd yn  r cyfoethog ac yn uchel ei barch yn y cylchoedd horolegol. Symudodd i fyw i Scwâr St George, Regents Park, Llundain lle y parhaodd ei fusnes a'i gasglu. Yr oedd yn gefnogwr brwd i'r gwahanol sefydliadau Prydeinig a ymwnâi â watsys a gemwaith, yn lifreiwr (liveryman) y Worshipful Company of Clockmakers ac yn ymfalchïo yn ei aelodaeth o Gymdeithas Horolegol America.

Dirywiodd ei iechyd a thua 1910 ymneilltuodd i'w gartref ger Comin Clapham lle y bu farw 28 Tachwedd 1918, gan adael ei wraig Jane, merch (Mrs Jeanora Williamson) a mab (Bruno). Yr oedd Evan Roberts yn aelod o Gymdeithas Amlosgi Lloegr a rhoes gyfarwyddyd fod ei gorff i'w amlosgi yn Amlosgfa Golders Green. Gadawodd ran helaeth o'i gasgliad i Amgueddfa Victoria ac Albert a'r Amgueddfa Wyddoniaeth; daeth ychydig o'i watsys Cymreig i Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

## Awdur

**William Linnard**

## Ffynonellau

Ymchwil bersonol

William Linnard, '*Evan Roberts from Gwyddelern*' yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionydd*, 2010

William Linnard, 'Evan Roberts, the greatest horological collector', *Horological Journal*, February 2011

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821132

**Dyddiad cyhoeddi:** 2010-09-17

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu